Dros £1miliwn wedi ei fuddsoddi yng nghoetiroedd



Plant yn archwilio coetir aeddfed

Mae chwech prosiect i greu neu wella coetiroedd fel y gall cymunedau lleol eu defnyddio a'u mwynhau yn derbyn cyllid gan y cynllun Grant Buddsoddi mew Coetir (TWIG).

Rydym yn darparu rhaglen TWIG mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol i Gymru. Mae grantiau rhwng £40,000 a £250,000 ar gael i sefydliadau sy'n creu coetiroedd hygyrch a reolir yn dda y gall cymunedau lleol ymgysylltu â nhw yng Nghymru.

> "Rydyn ni i gyd yn elwa o goetiroedd - maen nhw'n ein helpu ni a bywyd gwyllt i fyw bywydau iachach, maen nhw'n gwella ein lles, ac yn ein helpu i liniaru effeithiau gwaethaf yr argyfwng hinsawdd."
>
> *Julie James, Gweinidog dros Newid Hinsawdd*

Mae'r cyntaf o'r prosiectau i'w hariannu drwy'r cynllun wedi'u cyhoeddi heddiw. Maent yn cynnwys creu coetir trefol hygyrch mewn cydweithrediad â disgyblion ysgol y Barri, ac adfer coed brodorol i goetir arfordirol ym Mhen Ll?n.



Mae coetir collddail dan fygythiad yng Nghymru oherwydd yr argyfwng hinsawdd a rhywogaethau ymledol

Ymgeisiwch am nawdd o rowndiau ariannu sydd i ddod

Dywedodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd, Julie James: “Mae wedi bod yn hyfryd gweld yr amrywiaeth o ymgeiswyr yn cael grantiau yn rownd gyntaf y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd.

“Gyda rhagor o rowndiau ariannu ar y gorwel, rydym am i fwy o bobl ddod ymlaen a gwneud cais am gyllid fel y gallant dyfu mannau awyr agored hardd ar gyfer eu cymuned leol. Rydyn ni i gyd yn elwa o goetiroedd - maen nhw'n ein helpu ni a bywyd gwyllt i fyw bywydau iachach, maen nhw'n gwella ein lles, ac yn ein helpu i liniaru effeithiau gwaethaf yr argyfwng hinsawdd."

I fod yn gymwys ar gyfer cyllid TWIG, rhaid i sefydliadau fod yn berchen ar dir neu reoli ei reolaeth ac eisiau cynnwys y gymuned wrth greu, cynnal neu wella coetir.

Mae tri rownd ariannu yn weddill drwy'r rhaglen TWIG. Y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno datganiad o ddiddordeb yw:

- 16 Chwefror 2023 ar gyfer rownd tri
- 20 Ebrill 2023 ar gyfer rownd pedwar
- 7 Rhagfyr 2023 ar gyfer rownd pump

Ymgeisio am arian ar gyfer prosiect coetir yng Nghymru



Gall coetiroedd gael eu llethu gan rywogaethau ymledol sy'n tyfu'n gyflym, fel canclwm Japan

Chwe phrosiect coetir yn derbyn cyllid

- Mae **Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn** yn derbyn £209,060 i ail sefydlu coetir brodorol ar lethrau arfordirol serth ym Mhen Ll?n.
- Mae'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn derbyn £249,302 i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd ac adfer ecosystemau yng nghoetir Ystagbwll yn Sir Benfro.
- Mae **Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen** yn derbyn £103,082 i wella coetiroedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu cymunedol a chael gwared ar rywogaethau anfrodorol ymledol.
- Mae prosiect **Meadow Street Woods Cyngor Tref Pontypridd** yn derbyn £197,011 i wella bioamrywiaeth ac agor mynediad i goetir trefol.
- Mae **Ysgol Gynradd Oak Field** yn derbyn £50,000 i drawsnewid erw o dir sydd wedi gordyfu yn y Barri yn goetir trefol.
- Ac yn olaf, mae **D?r Cymru** yn derbyn £250,000 i wella rheolaeth a mynediad ymwelwyr i goetiroedd o amgylch Cronfa Dd?r Llanddegfedd ger Pont-y-p?l.



efyd mewn ...

Morwellt gyda golau'r haul. Credyd: Lewis Jefferies / WWF UK Hawlfraint Lewis Jefferies / WWF UK



ru yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Cytref o huganod. Credyd: Dave Boyle



leoedd natur ledled Cymru

Children taking part in activities next to the River Eden

£15.6million funding boost for natural heritage across the UK